Llythyr Newyddion

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

Cyhoeddwd: 28 Ionawr 2002

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Llythyr Newyddion hwn yn cynnwys eitemau am:

   (a) penodi Dirprwy Gadeirydd newydd i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ac ailbenodi'r ddau Gomisiynydd arall;

   (b) trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gyfraith etholiadol;

   (c) darpariaeth gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn ar gyfer y dyfodol a phenodi Cyd Ysgrifennydd newydd i'r Comisiwn;

   (ch) rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer y dyfodol

   (d) Comisiwn Etholiadol; a

   (dd) Cysylltiadau.

PENODIADAU

2. Penodwyd yr Anrhydeddus Mr Ustus Richards (Syr Stephen) gan yr Arglwydd Ganghellor yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn am y cyfnod 8 Awst 2001 i 31 Rhagfyr 2006.

Cefndir

3. Mae'r Comisiwn yn gorff parhaol a grëwyd o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 sydd fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiwn Ffiniau 1992, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal arolygon parhaus o'r etholaethau Seneddol yng Nghymru a chynnal arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yn achlysurol (bob 8 - 12 mlynedd).

4. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn arolygu pum rhanbarth etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), yn ogystal â nifer yr aelodau sydd i gael eu hethol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol, pa bryd bynnag y cynhelir arolwg cyffredinol.

5. Cyfansoddiad y Comisiwn yw:

   Y Cadeirydd - Llefarydd Ty'r Cyffredin, yn rhinwedd ei swydd, yw Cadeirydd y Comisiwn.

Comisiwn Ffiniau i Gymru Ty Caradog 1-6 Plas St. Andrews Caerdydd CF10 3BE
Boundary Commission for Wales Caradog House 1-6 St. Andrews Place Cardiff CF10 3BE
☎ 029 20395031 Ffacs/Fax 029 20395250
e-mail/e-bost bcomm.wales@lgbc-wales.gov.uk Web Site/Gwefan http://www.lgbc-wales.gov.uk/bcwindex.htm
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau teleffon naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg
The Commission welcomes correspondence and telephone calls either in English or Welsh

Y Dirprwy Gadeirydd - barnwr o'r Uchel Lys, a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor, sy'n llywyddu cyfarfodydd y Comisiwn.

Penodwyd Syr Stephen Richards, sy'n farnwr yn Adran Mainc y Frenhines o'r Uchel Lys Cyfiawnder, yn Ddirprwy Gadeirydd i olynu Syr Maurice Kay, a ymddiswyddodd pan ddaeth tymor ei benodiad i ben ar 31 Rhagfyr 2000.

Dau Gomisiynydd Arall - Mrs Susan Smith, a benodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Athro Kenneth George a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

Ailbenodwyd y ddau Gomisiynydd hyd 30 Mehefin 2005. Mae Mrs Smith hefyd yn Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Bydd y penodiadau hyn yn galluogi'r Comisiwn i ymgymryd â'r arolwg cyffredinol nesaf o'r etholaethau Seneddol a'r arolwg cyntaf o ranbarthau etholaethol y Cynulliad, a fydd yn cydredeg â'r arolwg o'r etholaethau Seneddol, (gweler y rhaglen arfaethedig isod).

Dau Asesydd - y Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr a Chyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.

TROSGLWYDDO'R CYFRIFOLDEB DROS GYFRAITH ETHOLIADOL

6. Yn dilyn aildrefnu trefniadaethau'r Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl yr etholiad cyffredinol diwethaf, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyfraith etholiadol o'r Swyddfa Gartref i Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (DTLR) newydd. Cyn y cyhoeddiad hwnnw, y Swyddfa Gartref oedd yn noddi gwaith y Comisiwn. Corff noddi'r Comisiwn bellach yw'r DTLR.

7. Dymuna'r Comisiwn gadarnhau nad yw ei annibyniaeth wedi cael ei effeithio gan y newid hwn o ran nawdd ac nad effeithir ar yr arolwg cyffredinol nesaf (y pumed) o'r etholaethau Seneddol a'r arolwg a gynhelir ar yr un pryd o ranbarthau etholiadol y Cynulliad.

TROSGLWYDDO'R GWASANAETH YSGRIFENYDDIAETH

8. Cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf, anfonodd yr Ysgrifennydd Cartref gynnig i'r Cynulliad y dylai'r gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth a gynigir i'r Comisiwn yn y dyfodol gael ei ddarparu gan yr Ysgrifenyddiaeth a gyflogir ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (LGBCW) a leolir yng Nghaerdydd. Yn hanesyddol, darparwyd gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) yn Llundain, sydd hefyd yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Loegr.

9. Derbyniodd y Cynulliad y cynnig. Felly, o 1 Ionawr 2002, darperir gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn gan Ysgrifenyddiaeth yr LGBCW yng Nghaerdydd. O'r dyddiad hwnnw, caiff Mr Edward Lewis, sef Ysgrifennydd yr LGBCW, ei benodi yn Gyd-Ysgrifennydd y Comisiwn. Bydd yr ONS yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Loegr.

RHAGLEN WAITH AR GYFER Y DYFODOL

10. Cyflwynodd y Comisiwn eu pedwerydd adroddiad cyfnodol ar etholaethau Seneddol ar 16 Rhagfyr 1994. Felly, yn unol â Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiwn Ffiniau 1992, rhaid i'r Comisiwn gyflwyno eu pumed adroddiad cyfnodol rhwng 16 Rhagfyr 2002 a 15 Rhagfyr 2006.

11. Bwriad y Comisiwn yw dechrau ar eu harolwg cyffredinol nesaf, ac arolwg o ranbarthau etholiadol y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002. Cyn dechrau'r ddau arolwg, bwriad y Comisiwn yw cynnal arolwg trylwyr o'r polisïau y byddant yn eu cymhwyso yn ystod yr arolygon. Caiff canlyniadau'r arolwg polisi eu hymgorffori mewn llyfryn gwybodaeth y bydd y Comisiwn yn ei gyhoeddi ychydig ar ôl cyhoeddi dechrau'r ddau arolwg yn ffurfiol.

COMISIWN ETHOLIADOL

12. Sefydlodd Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm 2000 y Comisiwn Etholiadol (EC) a ddaeth i fodolaeth ar 1 Ionawr 2001. Pan fydd y Comisiwn wedi cwblhau eu pumed arolwg cyffredinol, darpara'r Ddeddf i'w swyddogaethau gael eu trosglwyddo i'r EC. Darpara'r Ddeddf hefyd i swyddogaethau'r tri Comisiwn Ffiniau Seneddol eraill yn y DU gael eu trosglwyddo i'r EC pan fyddant yn cwblhau eu harolygon cyffredinol.

13. Bydd yr EC yn sefydlu pedwar Pwyllgor Ffiniau, un ar gyfer pob rhan o'r DU. Bydd y Pwyllgorau Ffiniau yn gyfrifol am bob arolwg o ffiniau etholaethau Seneddol eu gwledydd priodol yn y dyfodol.

CYSYLLTIADAU

14. O 1 Ionawr 2002, gellir cysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:

Mr E Lewis
Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru
Ty Caradog
1-6 St Andrews Place
Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
E-bost: bcomm.wales@lgbc-wales.gov.uk
Gwefan: www.lgbc-wales.gov.uk/bcwindex.htm